



Polisi Rheoli Heintiau a Gweithdrefnau

Bijou Day Nursery & Crèche, Y Bont-faen

Perchennog polisi: Nursery Manager / Rheolwr y Feithrinfa

Fersiwn: 2.0

Adolygwyd ddiwethaf: June 2026 / Mehefin 2026

Adolygiad nesaf: June 2027 / Mehefin 2027

Cymeradwywyd gan: Samantha Rennison, Responsible Individual / Unigolyn Cyfrifol

1. Datganiad Polisi

Mae Bijou Day Nursery & Crèche yn cymryd pob cam rhesymol i atal a rheoli heintiau ymhlith plant, staff, ac ymwelwyr.

Mae'r polisi hwn yn cydymffurfio â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) 2010, Deddf Diogelwch Bwyd 1990, Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, a Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010. Rydym hefyd yn dilyn canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

2. Hylendid Dwylo

Golchi dwylo yw'r mesur pwysicaf un ar gyfer atal lledaeniad heintiau. Mae pob plentyn ac aelod o staff yn golchi eu dwylo:

- Wrth gyrraedd y feithrinfa
- Cyn ac ar ôl trin bwyd neu ddioid
- Ar ôl defnyddio'r toiled neu gael cewyn wedi'i newid
- Ar ôl chwarae awyr agored
- Ar ôl cyswllt â hylifau'r corff

3. Glanhau a Diheintio

- Mae'r feithrinfa'n dilyn amserlen lanhau ddogfennedig — arwynebau, lloriau, toiledau, a manau newid cewynnau yn cael eu glanhau'n ddyddiol
- Glanhau tegnanau'n rheolaidd ac ar unwaith os ydynt wedi'u halogi
- Golchi dodrefn meddal bob wythnos o leiaf
- Mopiau a bwcedi wedi'u codio â lliw ar gyfer gwahanol ardaloedd

4. Offer Diogelu Personol (PPE)

- Gwisgo menig a ffedogau tafladwy wrth newid cewynnau, delio â hylifau'r corff, paratoi bwyd, a rhoi cymorth cyntaf

- Gwaredu PPE defnyddedig ar unwaith mewn biniau â chaead
- Golchi dwylo ar ôl tynnu PPE

5. Salwch a Chyfnodau Gwahardd

SALWCH	CYFNOD GWAHARDD
Dolur rhydd / chwydu	48 awr o'r digwyddiad olaf
Brech yr ieir	5 diwrnod o ddechrau'r frech
Llaw, troed a'r geg	Nes bod yn ddigon da i fynychu
Impetigo	Nes bod briwiau wedi crystio/gwella
Twymyn goch	24 awr ar ôl dechrau gwrthfotigau
Brech goch	4 diwrnod o ddechrau'r frech

6. Clefydau Hysbysadwy

- Os byddwn yn ymwybodol o glefyd hysbysadwy, byddwn yn hysbysu lechyd Cyhoeddus Cymru ac AGC
- Hysbysir rhieni am achosion cadarnhaol (heb enwi'r plentyn yr effeithiwyd arno)

7. Hyfforddiant Staff

- Hyfforddir yr holl staff mewn rheoli heintiau yn ystod sefydlu
- Darperir hyfforddiant gloywi yn flynyddol

8. Polisiâu Cysylltiedig

- Polisi lechyd a Diogelwch
- Polisi Newid Cewynnau
- Polisi Meddyginiaeth
- Polisi Brechiad